# CYLCHLYTHYR

# NEWSLETTER

## RHAGFYR / DECEMBER



## 2025

# Gair gan y Pennaeth

## *A message from the Headteacher*



Annwyl Rieni / Gwarcheidwad
Ar ran Ysgol Dyffryn Conwy, hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n rhieni / gwarchodwyr a dysgwyr.

Mae 2025 wedi bod yn flwyddyn hynod brysur a gweithgar i'n cymuned ni yma yn Nyffryn Conwy. Drwy gydol y flwyddyn, mae ein staff wedi bod wrth law i ddarparu cefnogaeth, cyngor ac addysg orau bosib. Rydym yn ddiolchgar iawn am yr holl sylwadau cadarnhaol a negeseuon cefnogol rydym wedi'u derbyn, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi i gyd yn y flwyddyn newydd.

Rydym yn ddiolchgar am eich parodrwydd i gefnogi disgwyliadau uchel yr ysgol gan sicrhau cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn.

Gobeithiaf y cewch chi egwyl braf a chyfle i orffwys, ac edrychaf ymlaen at gydweithio gyda chi fel rhieni a gwarcheidwad yn 2026.
Yr eiddoch yn gywir,

Mr Owain Gethin Davies

**Dear Parents / Guardian**

**On behalf of Ysgol Dyffryn Conwy, I would like to wish our parents / carers and learners a Merry Christmas and a Happy New Year.**

**2025 has been an extremely busy and active year for our community here in the Conwy Valley. Throughout the year, our staff have been on hand to provide the best possible support, advice and education. We are very grateful for all the positive comments and supportive messages we have received, and we look forward to working with you all in the new year.**

**We are grateful for your willingness to support the school's high expectations, ensuring support throughout the year.**

**I hope you have a nice break and a chance to rest, and I look forward to working with you as parents and guardian in 2026.**
**Kind regards**

**Mr Owain Gethin Davies**

# Dyddiadau Pwysig / Important Dates

| Tymor yr Hydref | | Autumn Term |
|---|---|---|
| **Hyfforddiant Mewn Swydd** | 01/09/2025 | **Staff Training Day** |
| Agor | 02/09/2025 | Open |
| Cau | 23/10/2025 | Close |
| **Hyfforddiant Mewn Swydd** | 24/10/2025 | **Staff Training Day** |
| Agor | 03/11/2025 | Open |
| Cau | 19/12/2025 | Close |
| **Tymor y Gwanwyn** | | **Spring Term** |
| **Hyfforddiant Mewn Swydd** | 05/01/2026 | **Staff Training Day** |
| Agor | 06/01/2026 | Open |
| Cau | 13/02/2026 | Close |
| Agor | 23/02/2026 | Open |
| **Hyfforddiant Mewn Swydd** | 13/03/2026 | **Staff Training Day** |
| Cau | 27/03/2026 | Close |
| **Tymor yr Haf** | | **Summer Term** |
| Agor | 13/04/2026 | Open |
| **Dydd Gwyl Fai** | 04/05/2026 | **May Day** |
| Cau | 22/05/2026 | Close |
| Agor | 01/06/2026 | Open |
| **Hyfforddiant Mewn Swydd** | 26/06/2026 | **Staff Training Day** |
| Cau | 17/07/2026 | Close |
| **Hyfforddiant Mewn Swydd** | 20/07/2026 | **Staff Training Day** |

| HMS / INSET 2025 - 2026 | |
|---|---|
| **DIWRNOD/DAY** | **DYDDIAD/DATE** |
| LLUN / MONDAY | 01/09/2025 |
| GWENER / FRIDAY | 24/10/2025 |
| LLUN/MONDAY | 05/01/2026 |
| GWENER / FRIDAY | 13/03/2026 |
| GWENER / FRIDAY | 26/06/2026 |
| LLUN/MONDAY | 20/07/2026 (GWYLL) |
| | |
| Noson Agored Blwyddyn 6 | 30/09/2025 |
| Noson Agored y Chweched Dosbarth | 20/01/2026 |

# Dyddiadau Pwysig
# *Important Dates*

- **Ysgol yn ail agor (dydd Mawrth) - 06/01/26**
  *School reopening (Tuesday)*

- **Noson rhieni blwyddyn 7 - 13/01/26**
  *Year 7 parents' evening*

- **Noson agored Chweched i flwyddyn 11- 20/01/26**
  *Sixth form open evening for year 11*

- **Noson dewisiadau blwyddyn 9 - 10/02/26**
  *Year 9 options evening*

- **Hanner tymor - cau dydd Gwener - 13/02/26**
  *Half term - close on Friday*



# Arweinwyr Cynnydd 2025-26
## *2025-26 Progress Leaders*



Mrs Leah Jones
Arweinydd Cynnydd Blwyddyn 7
Year 7 Progress Leader
lmj@dyffrynconwy.conwy.sch.uk



Ms Elin Jones
Arweinydd Cynnydd Blwyddyn 8 a 9
Year 8 and 9 Progress Leader
jej@dyffrynconwy.conwy.sch.uk



Ms Catrin Rowlands
Arweinydd Cynnydd Blwyddyn 10 ac 11
Year 10 and 11 Progress Leader
crowlands@dyffrynconwy.conwy.sch.uk



Mrs Elliw Davies
Arweinydd Cynnydd Blwyddyn 12 a 13
Year 12 and 13 Progress Leader
ehj@dyffrynconwy.conwy.sch.uk

# Tîm Diogelu Plant
## *Safeguarding Team*

Dyma dîm diogelu Ysgol Dyffryn Conwy. Maen nhw yma i'ch helpu gydag unrhyw beth a allai fod yn eich poeni neu os ydych chi'n teimlo y gallai fod angen eu help ar rywun rydych chi'n ei adnabod.




Here is the Ysgol Dyffryn Conwy safeguarding team. They are here to help you with anything that may be bothering you or if you feel that someone you know may need their help

Estynnwn groeso i chi i

# NOSON AGORED

## CHWECHED DOSBARTH

## SIXTH FORM

# OPEN EVENING

A warm welcome to you all

# 20.01.2026

Cyflwyniadau Pwnc
**4:00 - 5:30** YH/PM
Subject Presentations

YSGOL DYFFRYN CONWY

Prif Gyflwyniad
**5:30** YH/PM
Main Presentation





Estynnwn groeso i chi i

# NOSON DEWISIADAU

BLWYDDYN 9 YEAR 9

# OPTIONS EVENING

A warm welcome to you all

## 10.02.2026

| Cyflwyniadau Pwnc | Prif Gyflwyniad |
|---|---|
| **4:00 - 5:15** YH/PM | **5:30** YH/PM |
| Subject Presentations | Main Presentation |



# Tim Bugeiliol / Kiva
# Pastoral / Kiva Team



# Cerddor Ifanc Rotari Llanrwst
# Llanrwst Rotary Young Musician

Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth Cerddor Ifanc Rotari Llanrwst.
Diolch yn fawr iawn i Sioned Terry am feirniadu, Richard How a chefnogaeth Rotari Llanrwst ac i Eglwys Crwst am gael am gynnal y digwyddiad

Congratulations to everyone who competed in the Llanrwst Rotary Young Musician competition.
Many thanks to Sioned Terry for judging, Richard How and the support of Rotary Llanrwst and to Eglwys Crwst for hosting the event

Enillwyr blwyddyn 7-9 / Year 7-9 winners
1. Ishi Crosby
2. Charlie Malps
3. Anwen Thomas
Gyda chanmoliaeth uchel i Guto Williams

Blwyddyn 10-13 / Year 10-13
1. Non Dafydd






# Diwrnod Sgiliau
# Skills Day

**Diwrnod llawn ysbrydoliaeth a chyfleoedd newydd!**
Roedd hi'n wych gweld cymaint o amrywiaeth o brofiadau newydd yn y Diwrnod Sgiliau. Diolch enfawr i'n siaradwyr gwadd am rannu eu gwybodaeth a'u brwdfrydedd, ac i bawb a fu'n rhan o'r trefniadau – fe wnaethoch sicrhau bod y diwrnod yn llwyddiant i bawb!

**A day full of inspiration and new opportunities!**
It was fantastic to see such a wide variety of new experiences during the Skills Day. A huge thank you to our guest speakers for sharing their knowledge and enthusiasm, and to everyone involved in the planning – you helped make the day a great success for all!












# Diwrnod Sgiliau
# Skills Day

Diolch i'r Gwasanaeth Gwaed, Sera o Brifysgol Bangor a'r Coleg Cymraeg am ddod i mewn i gynnal sesiynau difyr gyda'r Chweched Dosbarth yn ystod ein diwrnod sgiliau.

Cafwyd hefyd sesiwn goginio i flwyddyn 13.Diolch i'r adran Bwyd a Maeth am gynnal y sesiwn.

Thank you to the Welsh Blood Service, Sera from a Bangor University and Coleg Cymraeg for joining us for our skills day.

Cooking skills session was also organised for Year 13. Thank you to our fantastic Food and Nutrition department.













# Gweithgareddau'r tymor
# Activities






Tridiau gwych yng Ngwersyll Glan Llyn ar y cwrs Safon Uwch Cymraeg! Ymweliad arbennig â'r Ysgwrn ac ychydig o ysbrydoliaeth gan Prifysgol Cymraeg Bangor.
Three great days at Gwersyll yr Urdd Glan Llyn on the A Level Welsh course! A special visit to the Ysgwrn and a little inspiration from Prifysgol Cymraeg Bangor.

Aeth blwyddyn 9 ar daith y Sgriblwyr Cymraeg yn Mhrifysgol Bangor, ble cawsant weithdy ysgrifennu creadigol yng nghwmni Anni Llyn, Aneirin Karadog a Melanie Owen.
Year 9 on tour at Prifysgol Bangor, where they took part in a creative writing workshop in the company of Anni Llyn, Aneirin Karadog and Melanie Owen.



Llongyfarchiadau mawr i'r criw talentog yma am ennill yr 2il wobr yn yr Ŵyl Cerdd Dant yn Aberystwyth. Llongyfarchiadau hefyd i'r dysgwyr oedd yn cystadlu gyda Cywion Clocswyr Conwy.
Congratulations to this talented group for winning 2nd prize at the Gŵyl Cerdd Dant in Aberystwyth. Congratulations also to the learners who competed with Cywion Clocswyr Conwy,.

# Gweithgareddau'r tymor
# Activities







Diolch o galon i Teleri Hughes am gynnal gweithdy West End. Cyn-ddisgybl ac un o sêr Heathers: The Musical a Les Misérables, rhannodd Teleri gyngor gwerthfawr ac ysbrydoliaeth gyda'n dysgwyr. Roedd pawb wrth eu bodd yn ail-greu coreograffi'r gân agoriadol!
A huge thank you to Teleri Hughes for hosting our West End workshop. As a former pupil and a talented performer in Heathers: The Musical and Les Misérables, Teleri shared invaluable advice and inspiration with our learners. They loved the opportunity to recreate the choreography from the iconic opening number!

Disgyblion Blwyddyn 9 a 10 wedi cael diwrnod gwerth chweil yn Stiwdio Aria, Llangefni yn ymweld â set Rownd a Rownd, derbyn gweithdy marchnata, a chyflwyniad i'r cyfleoedd gyrfaol ym myn teledu a ffilm. Diolch i Screen Alliance Wales a Gyrfa Cymru am y profiad.
Year 9 and 10 pupils had a worthwhile day at Aria Studio, Llangefni visiting the Rownd a Rownd set, receiving a marketing workshop, and an introduction to the career opportunities in television and film. Thanks to Screen Alliance Wales and Careers Wales for the experience.



# Gweithgareddau'r tymor
# Activities



**Fel rhan o'i gwaith yn astudio datblygiad Cristnogaeth dros y blynyddoedd diwethaf fe aeth Bl9 ar daith i St Crwst yn Llanrwst. Cafodd y disgyblion groeso mawr gan Y Tad Huw Bryant.**
**As part of their work studying the development of Christianity over recent years, Year 9 went on a trip to St Crwst in Llanrwst. The pupils received a warm welcome from Reverend Huw Bryant.**



**Diwrnod da yn y Ffair Aeaf! A good day at the Winter Fair!**



**Gwaith Maes Bioleg yn Rhyd y Creuau**
**Biology Fieldwork at Rhyd y Creuau**






YSGOL DYFFRYN CONWY

# Gweithgareddau'r tymor
# Activities



Blwyddyn 7 wedi mwynhau trip i weld pantomeim Cinderella yn Venue Cymru!
Year 7 enjoyed a trip to see Cinderella at Venue Cymru!





Mae dysgwyr 7 Pandy wedi bod yn creu coed Nadolig unigryw allan o lyfrau! Mae'r gweithgaredd yn rhan o'r uned waith ar lafur plant yn y gwersi Dyniaethau.

7 Pandy learners have been creating unique Christmas trees out of books! This activity is part of the unit on child labour in Humanities lessons.



# Cyngerdd Nadolig
# Christmas Concert

Cynhaliwyd ein Cyngerdd Nadolig neithiwr, gyda pherfformiadau rhagorol a thalentau amrywiol yn creu awyrgylch wirioneddol hudolus.
Diolch o galin i'r disgyblion am eu hymroddiad, i'r staff am eu gwaith paratoi, ac i'r gymuned am eu cefnogaeth barhaus.
Our Christmas Concert was held last night, with outstanding performances and diverse talents creating a truly magical atmosphere.
Thank you to the pupils for their dedication, to the staff for their preparation, and to the community for their continued support.















# Cyngerdd Nadolig
# Christmas Concert











**Linc i berfformiad Côr Blwyddyn 7**
**Link to Year 7 Choir Performance**

YSGOL DYFFRYN CONWY

# Chwaraeon
# Sports



Tîm Pêl-rwyd Blwyddyn 11
Year 11 Netball Team





Noson Wobrwyo Clwb Criced Llanrwst.
Llongyfarchiadau mawr i:
✅ Rowan – Maeswr mwyaf cyson
✅ Tomos – Batiwr mwyaf cyson

Llanrwst Cricket Club Awards Night.
Congratulations to:
✅ Rowan – Most consistent fielder
✅ Tomos – Most consistent batsman



Llongyfarchiadau mawr i Ella o flwyddyn 10 sy'n cynrychioli tîm Cymru o dan 16 yng ngwlad Belg. Pob lwc Ella!
Congratulations to Ella from year 10 who is representing the Wales under 16 team in Belgium. Good luck Ella!



# Chwaraeon
# Sports





Llongyfarchiadau enfawr i genod Bl. 8 & 9 ar ôl ennill twrnament Road to Principality ym Mangor!
Perfformiad ardderchog gan bawb, ennill 5 allan o 5 gêm, gan sgorio 17 cais ac heb ildio un cais chwaith!
Huge congratulations to the Year 8 & 9 girls after winning the Road to Principality tournament in Bangor!
An outstanding performance from everyone — winning 5 out of 5 games, scoring 17 tries and not conceding a single one!





Tîm Rygbi Bechgyn Blwyddyn 8
Year 8 Boys Rugby Team




Llongyfarchiadau i Mynor a Gethin am gael eu dewis i fynychu Rhaglen Rhanbarthol Cenedlaethol Academi Pêl-droed Dan 13 Cymru!
Congratulations to Mynor and Gethin for being selected to attend the Welsh National Regional Programme for the Under-13 Football Academy!

# Toby

## Ci Ysgol y Mis- Toby

Y mis hwn rydym yn dathlu Toby o Ysgol Dyffryn Conwy yn Llanrwst, Cymru.
Mae Toby yn gi Cavapoo chwech oed ac mae wedi bod yn yr ysgol ers mis Rhagfyr 2022. Mae Toby yn yr ysgol ddwywaith yr wythnos ac yn gweithio gyda blynyddoedd 7-9 lle mae'n ffynnu. Mae ei bresenoldeb tawel yn cyfrannu at awyrgylch cadarnhaol a chefnogol i'r holl ddisgyblion y mae'n rhyngweithio â nhw. Mae Toby yn mwynhau ei sesiynau cerdded a siarad ac ymyriadau grŵp bach sy'n helpu i feithrin hyder a chefnogi rheoleiddio emosiynol ar gyfer y disgyblion iau.
Cadwch ati gyda'r gwaith anhygoel Toby!











Tips ymarferol a chyngor arbenigol, am ddim, ar gyfer eich holl heriau magu plant

**Magu Plant.
Rhowch amser iddo.**



Free practical tips and expert advice for all your parenting challenges

**Parenting. Give it time.**

# Adolygu
# Revision

**Cliciwch ar y dolenni isod / Click on the links below**




**Bydd hefyd amrywiaeth o adnoddau adolygu yn cael eu rhannu ar google classroom y dysgwyr**

***A variety of revision resources will also be shared on the learners' google classroom***

# Ysgol Dyffryn Conwy

## PRESENOLDEB

| Os yw presenoldeb eich plentyn yn... | Canllawiau cenedlaethol |
|---|---|
| 95% - 100% | Rhagorol. Cyfle gorau o lwyddiant. Mae'ch plentyn yn cymryd mantais lawn o bob cyfle dysgu. |
| 90% - 95% | Boddhaol. Mae'n bosib bydd angen i'ch plentyn gymryd amser i ddal i fyny gyda gwaith. |
| 85% - 90% | Achos i bryderu. Mae'n bosib bydd angen i'ch plentyn dderbyn cymorth ychwanegol i ddal i fyny gyda gwaith. |
| 80% - 85% | Anfoddhaol. Mae'n bosib y caiff presenoldeb gwael eich plentyn effaith arwyddoraol ar ddysgu. |
| Is na 80% | Posibilrwydd fod eich plentyn yn colli allan ar addysg eang a chytbwys. |

## MAE PRESENOLDEB YN BWYSIG



| Os yw presenoldeb eich plentyn yn ystod y flwyddyn ysgol... | Byddai eich plentyn wedi colli tua... | Neu byddent wedi colli tua... |
|---|---|---|
| yn 95% | 9 Diwrnod o'r ysgol | 54 o wersi |
| yn 90% | 19 Diwrnod o'r ysgol | 114 o wersi |
| yn 85% | 28 Diwrnod o'r ysgol | 168 o wersi |
| yn 80% | 38 Diwrnod o'r ysgol | 228 o wersi |



**ANOGWCH BRESENOLDEB YSGOL**

**GYDA'N GILYDD BYDDWN YN CYRRAEDD EIN POTENSIAL**

# Ysgol Dyffryn Conwy

# ATTENDANCE

| If your child's attendance is... | National Guidelines |
|---|---|
| 95% - 100% | Excellent. Best chance of success. Your child takes full advantage of every learning opportunity. |
| 90% - 95% | Satisfactory. It is possible that your child will need to make time to catch up with work. |
| 85% - 90% | Cause for concern. It is possible that your child will need to receive additional support to catch up with work. |
| 80% - 85% | Unsatisfactory. Your child's poor attendance may have a significant impact on learning. |
| Less than 80% | Possibility that your child is missing out on a broad and balanced education. |

## ATTENDANCE IS IMPORTANT



| If your child's attendance for the school year... | Your child would have missed around... | Or they would have missed... |
|---|---|---|
| is 95% | 9 Days of school | 54 lessons |
| is 90% | 19 Days of school | 114 lessons |
| is 85% | 28 Days of school | 168 lessons |
| is 80% | 38 Days of school | 228 lessons |



PLEASE ENCOURAGE SCHOOL ATTENDANCE

TOGETHER WE WILL REACH OUR POTENTIAL

# FFONAU SYMUDOL

YSGOL DYFFRYN CONWY

## CYRRAEDD YR YSGOL - BYDDWCH YN...

YONDR

Diffodd eich ffôn

Datgloi eich sach gan ddefnyddio'r 'Sylfaen Datgloi'.

Rhoi eich ffôn a/neu clustffonau yn y sach, ei gadw yn ddiogel a'i roi yn eich bag.

## GADAEL YR YSGOL - BYDDWCH YN...

Datgloi eich sach gan ddefnyddio'r 'Sylfaen Datgloi'

Tynnu eich ffôn a/neu glustffonau o'r sach




Cadw eich sach yn ddiogel a rhoi eich sach yn eich bag tan y diwrnod canlynol

**Ers mis Medi 2024 rydym wneud gwneud ein hysgol yn ofod di-ffôn i gefnogi lles plant a gwella addysgu a dysgu. Codir tâl o £20 y sach am unrhyw golled neu ddifrod i'r sach. Os na fydd gan unigolion eu sach neu wedi ei golli disgwylir iddynt dalu £20 drwy Parent Pay am un newydd.**

**Since September 2024 we have been making our school a phone-free space to support children's welfare, in order to improve teaching and learning. A charge of £20 per pouch will be made for any loss or damage to the pouch. If individuals do not have their pouch or have lost it they are expected to pay £20 via Parent Pay for a new one.**

# MOBILE PHONES

YSGOL DYFFRYN CONWY

## ARRIVING AT SCHOOL - YOU WILL...

YONDR

1. Switch off your phone
2. Unlock your pouch using the 'Unlocking System'
3. Place your phone and/or headphones in the pouch

## LEAVING SCHOOL - YOU WILL...

1. Unlock your pouch using the 'Unlocking System'
2. Remove your phone and/or headphones from the pouch
3. Keep your pouch safe and put your pouch in your bag until the following day




Ers mis Medi 2024 rydym wneud gwneud ein hysgol yn ofod di-ffôn i gefnogi lles plant a gwella addysgu a dysgu. Codir tâl o £20 y sach am unrhyw golled neu ddifrod i'r sach. Os na fydd gan unigolion eu sach neu wedi ei golli disgwylir iddynt dalu £20 drwy Parent Pay am un newydd.

Since September 2024 we have been making our school a phone-free space to support children's welfare, in order to improve teaching and learning. A charge of £20 per pouch will be made for any loss or damage to the pouch.
If individuals do not have their pouch or have lost it they are expected to pay £20 via Parent Pay for a new one.

# Offer Mathemategol

# Mathematical Equipment

Rydych angen y canlynol ym <u>mhob gwers</u>

You need the following in <u>every lessons</u>



1) Beiro ddu / glas / gwyrdd


Black / blue / green pen



2) Pensil / Pencil



3) Pren mesur / Ruler



4) Onglydd / Protractor



5) Cwmpas / Compass

6) Amlygwr / Highlighter




7) Glud / Glue




8) Cyfrifiannell wyddonol /

Scientific calculator

# **Canllawiau Gwisg Ysgol Blwyddyn 7-11**
## ***School Uniform Guidelines for Years 7-11***

| **Eitem/Item** | **Disgrifiad/Manylion** | | **Description/Details** |
|---|---|---|---|
| Crys Ysgol Gwyn<br><br>White School Shirt | Disgwylir i bob disgybl wisgo crys gwyn ffurfiol gyda botymau at y gwddw a choler ffurfiol i'r ysgol. Caniateir crys llewys byr neu hir. |  | Every pupil is expected to wear a formal white collared shirt with buttons to the collar. These can be long or short sleeved |
| Tei Ysgol<br><br>School Tie | Mae'r tei ysgol yn un Burgundy gyda streipiau Aur. Gellir archebu'r tei gan ein 4 cyflenwr gwisg neu drwy'r ysgol. Disgwylir i'r tei gael ei wisgo yn briodol ar bob cyfrif. | | The school tie is Burgundy with Gold stripes. It can be purchased from any of our 4 suppliers or through the school. The tie should be correctly worn at all times |
| Siwmper Ysgol<br><br>School Jumper | Siwmper Burgundy gwddw 'V' gyda logo'r ysgol ar y blaen. Gall y simper gael ei archebu gan ein 4 cyflenwr gwisg neu drwy'r ysgol.<br>**Mae angen y siwmper ysgol yn yr ysgol POB dydd** | | The school jumper is a BUrgundy 'V' neck jumper with the school logo in Gold on the chest. Again it can be purchased through any of our 4 suppliers<br>**The school jumper is needed in school EVERY day.** |
| Trowsus/Sgert Ysgol<br><br>School Trousers/Skirt | Trowsus du wedi eu teilwra neu sgert bletiog<br>**Disgwylir i'r sgert gael ei gwisgo at y pen-glin, neu'n hirach/ Ni chaniateir trowsusau tynn, leggings, chinos, jeans neu debyg.**<br>*** Caniateir shorts du wedi eu teilwra pan fydd y tywydd yn gynnes yn nhymor y Haf.* |  | The black tailored trousers or black pleated skirt<br>**The skirt should be worn to the knee or longer. Jeans, chinos, leggings or tight trousers are not permitted.**<br><br>*** Black tailored shorts will be permitted during the Summer term.* |
| Esgidiau<br><br>Shoes | Dylid gwisgo esgidiau du plaen a fflat - dim logo na lliw. Caniateir bŵts at y ffêr, ond dim uwch. Dylai'r esgidiau fod yn ddigon cryf ar gyfer y diwrnod ysgol<br><br>**Sanau gwyn/du neu deits du yn unig.** | | Shoes should be plain black, flat with black soles with no logos or colour. Boots up to the ankle are permitted but no higher.<br>Shoes must be sturdy enough to support during the school day.<br>**Plain white/black socks or black tights only.** |
| Ychwanegol<br><br>Additional | Caniateir un clust tlws ym mhob clust yn unig.<br>**<u>Ni chaniateir tlysau yn y twyn nag ewinedd ffug.</u>**<br>**<u>Ni chaniateir lliwiau gwallt annaturiol.</u>**<br>**<u>Colur naturiol yn unig.</u>** | | One stud earring per ear only is permitted.<br>**<u>Facial piercings of any kind and false nails are not permitted.</u>**<br>**<u>Un-natural hair colour is not permitted.</u>**<br>**<u>Natural looking makeup only</u>** |

# Canllawiau Gwisg Ysgol Blwyddyn 12 a 13
## *School Uniform Guidelines for Years 12 and 13*

| Eitem/Item | Disgrifiad/Manylion | Llun/Image | Description/Details |
|---|---|---|---|
| Crys Ysgol Gwyn<br><br>White School Shirt | Disgwylir i bob disgybl wisgo crys gwyn ffurfiol gyda botymau at y gwddw a choler ffurfiol i'r ysgol. Caniateir crys llewys byr neu hir. |  | Every pupil is expected to wear a formal white collared shirt with buttons to the collar. These can be long or short sleeved |
| Tei Ysgol<br><br>School Tie | Mae tei'r 6ed Dosbarth yn un Du gyda streipiau Aur. Gellir archebu'r tei gan un o'n 4 cyflenwr gwisg neu drwy'r ysgol. Disgwylir i'r tei gael ei wisgo yn briodol ar bob cyfrif. | | The 6th form school tie is Black with Gold striped. It can be purchased from any of our 4 suppliers or through the school. The tie should be worn correctly at all times. |
| Siwmper Ysgol<br><br>School Jumper | Siwmper Ddu gwddw 'V' gyda logo'r ysgol ar y blaen. Gall y simper gael ei archebu gan ein 4 cyflenwr gwisg neu drwy'r ysgol.<br>**Mae angen y siwmper ysgol yn yr ysgol POB dydd** | | The school jumper is a Black 'V' neck jumper with the school logo in Gold on the chest. Again it can be purchased through any of our 4 suppliers<br>**The school jumper is needed in school EVERY day.** |
| Trowsus/Sgert Ysgol<br><br>School Trousers/Skirt | Trowsus du wedi eu teilwra neu sgert bletiog<br>**Disgwylir i'r sgert gael ei gwisgo at y pen-glin, neu'n hirach/ Ni chaniateir trowsusau tynn, leggings, chinos, jeans neu debyg.**<br>*** Caniateir shorts du wedi eu teilwra pan fydd y tywydd yn gynnes yn nhymor y Haf.* |  | The black tailored trousers or black pleated skirt<br>**The skirt should be worn to the knee or longer. Jeans, chinos, leggings or tight trousers are not permitted.**<br><br>*** Black tailored shorts will be permitted during the Summer term.* |
| Esgidiau<br><br>Shoes | Dylid gwisgo esgidiau du plaen a fflat - dim logo na lliw. Caniateir bŵts at y ffêr, ond dim uwch. Dylai'r esgidiau fod yn ddigon cryf ar gyfer y diwrnod ysgol<br><br>**Sanau gwyn/du neu deits du yn unig.** | | Shoes should be plain black, flat with black soles with no logos or colour. Boots up to the ankle are permitted but no higher.<br>Shoes must be sturdy enough to support during the school day.<br>**Plain white/black socks or black tights only.** |
| Ychwanegol<br><br>Additional | Caniateir un clust tlws ym mhob clust yn unig.<br>**<u>Ni chaniateir tlysau yn y twyn nag ewinedd ffug.</u>**<br>**<u>Ni chaniateir lliwiau gwallt annaturiol. Colur naturiol yn unig.</u>** | | One stud earring per ear only is permitted.<br>**<u>Facial piercings of any kind and false nails are not permitted.</u>**<br>**<u>Un-natural hair colour is not permitted.</u>**<br>**<u>Natural looking makeup only</u>** |

# Gwisg Addysg Gorfforol
# *Physical Education Uniform*

## Gorfodol / Compulsory

- Crys T Marwn - Logo ysgol / Maroon T Shirt - with school logo.
- Siaced 1/4 zip Du hefo logo’r ysgol / Black 1/4 zip jacket - with school logo.

## O unrhyw siop addas / From any suitable shop
## **(Ddim efo logo ysgol / Not with school logo)**



- Siorts / Sgorts Du - Black Shorts / Skorts
- Joggers / Leggings - Du / Black
- Sanau Du / Black Socks
- Esgidiau Ymarfer Du / Black Trainers
- Shin pads & Gum shield (er diogelwch / for safety)

@PEDyffrynConwy

## Dewisol / Optional

- Esgidiau pêl-droed / Football boots
- Crys ‘haen sylfaen’ / Base layer T Shirt (Du / Black)





# Cyfryngau Cymdeithasol
# *Social Media*

Yn Ysgol Dyffryn Conwy rydym yn hoffi dathlu a rhannu gwybodaeth gyda'r gymued. Gellir gweld gwybodaeth am yr ysgol, dathlu llwyddiant ein dysgwyr a staff a rhannu gwybodaeth allweddol drwy sawl cyfrwng. Bydd yr holl newyddion da a llwyddiant ein disgyblon ar ein gwefan a'n cyfrif Facebook, Youtube ac Instagram




At Ysgol Dyffryn Conwy we like to celebrate and share information with the community. It is possible to see information about the school, celebrate the success of our learners and staff and share key information through multiple social media sites. All the news will be on our website, Facebook, Youtube and Instagram

# Cyfathrebu

# *Communication*

**Mae yna sawl ffodd gwahanol y gallwch chi a'ch rhieni gyfathrebu gyda'r ysgol am wahanol faterion.**

**There are many different ways in which you and your parents can communicate with the school about different aspects.**

Hwyluso'r broses o wneud taliadau am ginio ysgol a theithiau addysgiadol ar-lein.

Facilitating the process of paying online for school meals and educational trips.

Hwyluso cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref. Dulliau cyfathrebu yn cynnwys negesuon testun ac e-byst yn ogystal â llythyrau.

Facilitating communication between school and home. Methods of communication include text messages and e-mails as well as letters.


Gwefannau cyfryngau cymdeithasol ys ysgol at ddibenion rhannu gwybodaeth ac adrodd straeon yn ogystal â dathlu llwyddiannau.

The school's social media websites for sharing information and reporting as well as celebrating achievemnets.



Gwefan ysgol sy'n cynnwys gwybodaeth allweddol i rieni a dysgwyr.

School website that includes key information for parents and learners.




Platform digidol yr ysgol â chasgliad eang o adnoddau ar gyfer dysgu o bell.

The school's digital platform with a wide collection of resources for distance learning.

Mynediad am ddim at Ebost, Office 365, Google Classroom, Flipgrid a holl adnoddau Hwb ar gyfer disgyblion a staff.

Free access to Email, Office 365, Google Classroom, Flipgrid and all Hwb resources for pupils and staff.



Cylchlythyr digidol Y BONT tymhorol yr ysgol at ddibenion rhannu gwybodaeth ac adrodd straeon yn ogystal â dathlu llwyddiannau.

The schools termly digital newsletter Y BONT for sharing information and reporting as well as celebrating achievements.



Fforwm Rhieni / Gwarcheidwaid. Cyfle i drafod agweddau amrywiol o fywyd a gwaith yr ysgol.

Parent / Guardian Forum. An opportunity to discuss various aspects of school life and work.

Ein platfform newydd i gofrestru presenoldeb ac ymddygiad holl ddisgyblion yr ysgol. Gall rhieni / gwarcheidwaid gael mynediad i'r platfform hwn gyda'u manylion mewngofnodi i wirio'r data ar gyfer eu plentyn.

Our new platform to register the attendance and behaviour of all pupils in the school. Parents / Guardians can access this platform with their log in details to check the data for their child.



YSGOL DYFFRYN CONWY
Ffordd Nebo
Llanrwst
Conwy
LL26 0SD

Rhif Ffôn / Telephone: 01492 642800
Rhif Facs / Fax: 01492 642801

Gwefan / Website: www.ysgoldyffrynconwy.org
E-bost / Email: cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk

**PENNAETH / HEAD**

Mr Owain Gethin Davies